Prifysgol Abertawe
Swansea University

Astudiaeth Achos: Pysgodfa Fras White Springs

Diogelu'r Dyfodol

hyfforddiant mewn datblygiad cynaliadwy ar gyfer busnesau proffesiynol

Pysgota ar gyfer y Dyfodol

hyfforddiant mewn datblygiad cynaliadwy ar gyfer y sector Rheoli Pysgodfeydd

Delir yr hawlfraint ar y defnyddiau cyhoeddedig o brosiect PP4SD Prifysgol Abertawe, yn y fformadau argraffedig a chrynoddisg, gan yr awduron. Rydym yn cefnogi'r defnydd o'r defnyddiau, gan ofyn yn unig am i'r gydnabyddiaeth ganlynol gael ei rhoi bob tro y'u defnyddir:

"Datblygwyd y defnyddiau hyn gan dîm PP4SD ym Mhrifysgol Abertawe, gyda mewnbwn arbenigol gan PP4SD y DU. Cefnogwyd y gwaith o'u datblygu a'u cynhyrchu gan Gronfa Manteisio ar Wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd dan Amcanion 1 a 3."

(Delir yr hawlfraint ar lawlyfr gwreiddiol PP4SD, y daw defnydd Prifysgol Abertawe'n rhannol ohono, gan Sefydliad y Gwyddorau Amgylcheddol.)

Cefnogir gan Gronfa Manteisio ar Wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd dan Amcanion 1 a 3

Lantra

ARFERION PROFFESIYNOL TUAG AT DDATBLYGU CYNALIADWY
pp4sd
PROFESSIONAL PRACTICE FOR SUSTAINABLE DEVELOPMENT

Astudiaeth Achos: Pysgodfa Fras White Springs

Cyflwyniad a Chefndir

Prynodd y perchennog Mr V Lloyd y safle 35 erw (23ha) hwn gan y gwaith dur lleol ym 1983. Mawnog oedd y rhan fwyaf o'r tir, ac yr oedd yn awyddus i ehangu ei fusnes gwerthu tyweirch a thirlunio ffyniannus trwy werthu pridd. Darganfuwyd ffynnon artesiaidd ar y safle a gloddwyd ar ddechrau'r 1920au i gyflenwi dŵr i'r gwaith dur gerllaw. Nid aeth y ffynnon hon yn sych erioed, hyd yn oed yn ystod cyfnod sychaf y 1980au, a bob tro y claddai Mr Lloyd dwll ar y safle fe fyddai wedi llenwi â dŵr erbyn trannoeth. Cyn bo hir yr oedd ganddo ddau lyn prydferth, a phenderfynodd ymddeol yn rhannol o'i fusnes tirlunio proffesiynol. Fe agorodd Mr Lloyd ei fenter newydd ar y 1af o Fehefin 1987 dan yr enw White Springs. Erbyn 1990 yr oedd wedi ychwanegu'r adeiladau sy'n edrych allan dros y llynnoedd gan ffurfio calon y ganolfan wyliau hon ar gyfer pysgotwyr bras.

Ffynhonnell: Whitesprings Coarse Fishery

Arferion

Mae gan White Springs rywbeth at ddant pawb, o'r rhai sy'n pysgota am bleser yn unig at y rhai sy'n cystadlu o ddifrif neu'r pysgotwyr hynny sy'n dyheu am ddal y cerpyn perffaith. Mae'r pum llyn sydd ganddo bellach yn cynnwys amrywiaeth eang o rywogaethau i gynnig rhychwant da o brofiadau pysgota. Mae'r stoc yn cynnwys cerpynnod, bremiaid, gwrachod y baw, draenogiaid, orffod aur a glas, ysgretanod aur, cochgangod a barfogiaid.

Derbyniodd White Springs glod gan y cylchgrawn Anglers Mail fel pysgodfa fras orau gwledydd Prydain, a'i hethol yn aelod o'r sefydliad cydweithredol Premier Fisheries UK. Trefnir nifer o gystadlaethau o fri'n rheolaidd yn y bysgodfa gan gynnwys digwyddiadau Meistri Cerpynnod Cymru. Darperir hyfforddiant hefyd, yn enwedig ar gyfer pysgotwyr ifanc.

Mae'r llety ar y safle'n cynnwys 6 o fflatiau moethus, caban pren i bysgotwyr a chyfleusterau ar gyfer gwersyllwyr a charafanwyr â chysylltiadau trydanol, cawodydd a golchdy dillad. Mae bar ac ystafell chwaraeon yn y brif ganolfan, ac yn ogystal â'r cyfleusterau gwely a brecwast mae gwasanaeth archebu bwyd i fynd allan, fel y gall pysgotwyr ymbleseru mewn gwahanol ddulliau coginio a ddarperir gan fusnesau lleol heb adael glan y llyn.

Mae'r siop gêr ac abwyd pysgota'n darparu ar gyfer holl anghenion technegol y pysgotwyr, gan gynnwys rhychwant o fathau o abwyd y mae Mr Lloyd ei hun wedi ymchwilio iddynt.

Nod y cwmni

Y nod ers y cychwyn oedd rhedeg pysgodfa reoledig fyddai'n economaidd hyfyw, tra'n cadw mewn cof bob amser fod y profiad pysgota safonol y mae'r busnes yn ei werthu'n gysylltiedig yn y bôn ag ansawdd yr amgylchedd sydd o'i gwmpas.

Dull gweithredu

Mae'r allwedd i lwyddiant y bysgodfa hon i'w weld yn yr ymrwymiad llwyr i gyfoethogi profiad pysgota ei chwsmeriaid, tra'n cadw'r brand White Springs yn y golwg yn barhaus. Mae'r strategaethau a ddilynir i gyflawni hyn yn cynnwys:

- Hysbysebu ar hyd a lled y DU gan gynnwys cyfeiriadau at atyniadau'r ardal leol
- Plannu llwyni a choed o gwmpas y llynnoedd sydd yn bennaf o rywogaethau lleol ac o ffynonellau lleol
- Defnyddio trigolion lleol fel gwirfoddolwyr yn y siop ac ar gyfer tasgau eraill ar y safle, yn gyfnewid am freintiau pysgota
- Defnyddio busnesau lleol a'u hybu'n weithgar
- Cynyddu'r cyfleusterau ar gyfer pysgotwyr anabl: mae'n bosibl gyrru i'r llynnoedd i gyd ac i'r rhan fwyaf o'r mannau pysgota sydd ar y safle
- Lleihau'r angen i ail-stocio at y lefel isaf bosibl, a hynny trwy sicrhau dyfnder dŵr cyson, cynnal cydbwysedd da mewn llynnoedd lle mae pysgod yn bridio'n naturiol, a chadw rheolaeth dda ar y pysgod yn brif flaenoriaeth i'r staff ac i'r pysgotwyr
- Ymrwymiad i ddarparu ar y safle yr holl gyfleusterau a allai fod eu hangen ar bysgotwyr
- Defnyddio'r cyfleusterau i leoli cystadlaethau gan gynnwys digwyddiadau lleol yn ogystal â chystadlaethau pysgota uchel eu proffil
- Cadw stoc helaeth o offer pysgota ac abwydydd ar y safle
- Buddsoddi yn y peirianwaith sydd ei angen ar y safle, e.e. peiriannau torri glaswellt ayyb
- Darparu cyfleusterau gwaredu gwastraff ar lannau'r llynnoedd
- Yr unig reolau ar gyfer pysgotwyr yw: peidiwch â gadael sbwriel; defnyddiwch fachau pysgota di-adfach yn unig; dangoswch barch tuag at y pysgotwyr eraill o'ch cwmpas.

Buddion i'r Busnes

Mae White Springs wedi datblygu'n fusnes ar fynd trwy ddenu tyrfa ffyddlon a chynyddol o gwsmeriaid sy'n gwerthfawrogi'r profiad pysgota safonol y mae'n ei gynnig. Mae'n cadw presenoldeb cryf y brand yn y golwg ac yn annog cwsmeriaid i letya ar y safle gan ddarparu pecyn gwyliau hunangynhwysol cyflawn, tra'n pwysleisio'r agwedd bysgota'n ddibaid fel canolbwynt y profiad. Yn yr haf, yn ystod penwythnosau a'r tymor gwyliau, gellir gweld mwy na 100 o bysgotwyr ar y safle unrhywbryd. Mae enw da White Springs fel lle ar gyfer cystadlaethau'n sicrhau ei bod yn parhau i ddenu pysgotwyr difrifol sy'n ffurfio sylfaen y gronfa helaeth o gwsmeriaid.

Buddion i'r Amgylchedd a'r Gymuned

- Mae plannu llwyni a choed sydd o rywogaethau lleol yn bennaf yn sicrhau bod y bywyd gwyllt lleol, gan gynnwys adar a rhywogaethau di-asgwrn-cefn, yn cael cyfle i ffynnu a bod y tirweddau lleol yn cael eu cynnal
- Mae'r trigolion lleol a ddefnyddir fel gwirfoddolwyr yn magu sgiliau am oes
- Mae buddion i fusnesau lleol megis bwytai sy'n gwerthu bwyd i fynd allan
- Annogir pysgotwyr i leihau'r maint y maent yn teithio tra ar eu gwyliau trwy hybu'r ddefnydd o'r cyfleusterau sydd ar y safle, a thrwy hysbysebu atyniadau yn y cyffiniau.